# Arolygiad o dan Adran 28
# Deddf Addysg 2005

# Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn

# Ysgol Y Garreg
# Llanfrothen
# Penrhyndeudraeth
# Gwynedd
# LL48 6LJ

**Rhif yr Ysgol: 6612198**

**Dyddiad yr Arolygiad: 29 Medi 2008**

**gan**

**Edward Goronwy Morris**
**78283**

**Dyddiad Cyhoeddi: 1 Rhagfyr 2008**

**O dan rif contract Estyn: 1101108**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

72. Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn cael ei hyrwyddo yn dda iawn drwy amrywiaeth o brofiadau gwerthfawr a gynigir i'r disgyblion. Ymdrinia'r disgyblion â gwahanol ddiwylliannau a chrefyddau yn aeddfed a chydwybodol. Mae eu dealltwriaeth o'u treftadaeth a diwylliant Cymru yn cael ei ddatblygu'n dda.

73. Mae addoli ar y cyd yn bodloni'r gofynion statudol ac yn rhoi cyfle i ddisgyblion ystyried cwestiynau sylfaenol bywyd yng ngoleuni eu credoau eu hunain ac yng ngoleuni syniadau a chredoau pobl eraill.